



Plant yn y ddalfa 2025/26

Dadansoddiad o ganfyddiadau pobl ifanc 12-18 oed o'u profiadau
mewn canolfannau hyfforddi diogel a sefydliadau troseddwyd
ifanc

Medi 2026

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Cefndir	5
Adran 1 Trosolwg o'r canfyddiadau	9
Adran 2 Pwy yw'r plant yn y ddalfa?.....	12
Adran 3 Beth oedd ein canfyddiadau?	16
Atodiad I Nodweddion demograffig a chefnidir	36
Atodiad II Methodoleg	39

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn, sy'n seiliedig ar ein harolygiadau a chanlyniadau'r arolygon o blant yn y ddalfa, yn dangos bod safonau wedi parhau i fod yn druenus yn yr ystâd ieuenctid.

Roedd plant ym mhob sefydliad ar wahân i STIEF y Parc a Chanolfan Hyfforddi Diogel Oakhill yn dal i gael eu cloi y tu ôl i'w drysau am lawer gormod o amser - cymaint â 19 awr y dydd yn Feltham a dim ond ychydig yn llai na hynny yn Werrington a Wetherby, er bod rhywfaint o welliant wedi bod yn yr olaf yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y ddarpariaeth addysg, ac eithrio yn y Parc, yn ofnadwy ac roedd rhestrau cadw ar wahân helaeth yn cyfyngu ar ba ddosbarth neu gwrs y gallai plant eu mynychu.

Roedd lefelau trais yn dal yn llawer rhy uchel ym mhob un o'r sefydliadau hyn. Yn Feltham - sef y sefydliad troseddwy'r ifanc mwyaf treisgar adeg ein harolygiad - canfu'r arolygwyr fod prinder staff cronig wedi arwain at drefn fwy anghyson byth, gyda gweithgareddau'n cael eu cwtogi'n aml gan arwain at fwy o rwystredigaeth ymysg y bechgyn.

Roeddem yn parhau i fod yn feirniadol o'r ffordd yr oedd ymddygiad yn cael ei reoli yn y ddalfa ieuenctid ac roedd y rhan fwyaf o sefydliadau'n methu â chael yr hanfodion yn iawn. Roedd y rheolau'n aneglur, roeddent yn cael eu defnyddio'n anghyson gan staff, yn aml nid oedd llawer o ganlyniadau am ymddygiad gwael ac nid oedd digon o gymhellion ystyrion i gymell plant i ymddwyn. Roedd hynny'n golygu nad oedd plant yn cael y cysondeb yn y gefnogaeth gan oedolion sy'n hanfodol i sefydlu ffiniau a chadw pawb yn ddiogel. Hefyd, nid oedd perthnasoedd yn ddigon da, gyda llawer o blant yn dweud nad oedd y staff yn darparu digon o gefnogaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y gyfran uchel o blant sy'n cael eu cadw ar remand. Dangosodd ein hadroddiad thematig 'Plant ar remand tymor byr', a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, fod llawer yn treulio cyfnodau byr yn y ddalfa cyn y gellir cytuno ar becyn mechnïaeth addas, sy'n achosi tarfu a chost ddiangen.

Yn Oakhill, gwelsom fod prosesau diogelu wedi methu a bod staff yn methu yn rhai o'u dyletswyddau mwyaf sylfaenol i gadw plant yn ddiogel a sicrhau bod pryderon neu ddigwyddiadau'n cael eu hadrodd yn briodol. Roedd y safonau mor wael fel y penderfynais gyhoeddi Hysbysiad Brys i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder.

Nid yw nifer y plant sy'n cael eu cadw yn yr ystâd ieuenctid erioed wedi bod yn is ac mae'n parhau i fod ag adnoddau da iawn o'i gymharu â charchardai oedolion. Er gwaethaf hyn, mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa wedi methu â gwneud gwelliannau ystyrion i'r problemau endemig ac ymddangosiadol anhydrin y mae'r arolygiaeth hon a'r plant yn ein harolygon wedi'u nodi ers blynnyddoedd lawer. Mae gormod o reolwyr yn y ganolfan, ac mewn sefydliadau troseddwy'r ifanc nid yw swyddogion wedi'u hyfforddi'n ddigonol, mae disgwyliadau'n rhy isel ac nid yw plant yn ffynnu.

Dim ond yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc, lle mae safonau wedi aros yn gyson uchel ers blynyddoedd lawer, y mae plant yn cael y ffiniau, y gefnogaeth, y gofal, y cymhelliant a'r addysg i lwyddo. Byddai'n dda o beth i'r Gwasanaeth leuenctid yn y Ddalfa ddysgu o lwyddiant y sefydliad hwn.

Charlie Taylor

Prif Arolygydd Carchardai


Awst 2026

Cefndir

Yn 2025/26, roedd plant yn y ddalfa yn cael eu cadw mewn un o bedwar lleoliad: Canolfan Hyfforddi Ddiogel (STC) Oakhill, cartrefi diogel i blant (SCH), sefydliadau troseddwyd ifanc (STI), a'r ysgol ddiogel, Oasis Restore, er bod y sefydliad newydd hwn wedi cau dros dro ym mis Awst 2025 oherwydd diffygion diogelwch ac ni wnaeth ailagor tan fis Mehefin 2026. Roedd cau'r safle fel hyn wedi rhoi pwysau ychwanegol ar y safleoedd eraill, yn enwedig Sefydliad Troseddwyd Ifanc Feltham a Chanolfan Hyfforddi Ddiogel Oakhill, a oedd yn gorfod rheoli plant ychwanegol a phoblogaeth remand a oedd yn cynyddu'n barhaus.

Wrth i ystâd y plant fynd yn fwy tameidiog, felly hefyd y trefniadau arolygu. Mae arolygiadau o Sefydliadau Troseddwyd Ifanc yn Lloegr yn cael eu cynnal gan Arolygiaeth Carchardai EF mewn partneriaeth ag Ofsted a'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC), ac yng Nghymru mae Arolygiaeth Carchardai EF yn gweithio gydag Estyn ac Arolygiaeth Iechyd Cymru. Mae arolygiadau o Ganolfan Hyfforddi Ddiogel Oakhill yn cael eu harwain gan Ofsted a'u cefnogi gan y Comisiwn Ansawdd Gofal ac Arolygiaeth Carchardai EF. Mae arolygiadau o gartrefi diogel i blant yn Lloegr yn cael eu harwain gan Ofsted ac yng Nghymru gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae'r ysgol ddiogel yn cael ei harolygu o dan fframwaith ar wahân gan Ofsted. O ganlyniad, mae'n anodd asesu canlyniadau, mesur cynnydd neu gymharu'r gwahanol fathau o sefydliadau sy'n dal plant.


Ffigur 1: Map o siroedd sydd â Gwasanaethau Ieuentid yn y Ddalfa a arolygir gan Arolygiaeth Carchardai EF



Yn 2025/26, bu gostyngiad yn nifer y plant a oedd yn cael eu cadw mewn Canolfannau Hyfforddi Diogel a Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc, gan barhau â thuedd hirsefydlog. Roedd y boblogaeth gyfartalog o blant a phobl ifanc yn y sefydliadau hyn - sy'n cynnwys rhai sy'n 18 oed - yn 371 yn 2025-26, o'i gymharu â 939 yn 2015-16. Mae'r boblogaeth lai wedi gwella cymarebau staff-i-blant ym mhob lleoliad, ac mae pob safle wedi parhau i weithredu ar gapasiti llawer is.

Ffigur 2: Mae poblogaethau Canolfannau Hyfforddi Diogel a Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc yn parhau i ostwng yn y tymor hwy, er bod y gostyngiad wedi arafu yn ystod y blynnyddoedd diwethaf

Data'r Gwasanaeth Ieuencid yn y Ddalfa, Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel yng Nghymru a Lloegr; mae'n cynnwys pobl ifanc 18 oed




Ffynhonnell: Adroddiad Ieuencid yn y Ddalfa, 2026

Er gwaethaf y gostyngiad yn y boblogaeth, mae nifer y plant sy'n cael eu cadw ar remand wedi cyrraedd gwastad. Yn 2025/26, cyhoeddodd Arolygiaeth Carchardai EF adolygiad thematig am blant a oedd yn cael eu cadw ar remand tymor byr cyn cael eu rhyddhau i'r gymuned¹. Canfu fod plant yn cael eu cadw yn y ddalfa yn rhy aml wrth aros am dreial neu ddedfryd, hyd yn oed pan oedd gweithwyr proffesiynol yn credu y gellid eu rheoli'n ddiogel ac yn fwy cost-effeithiol yn y gymuned.

¹ Arolygiaeth Carchardai EF (2026), 'Children on short-term remand: A thematic review by HM Chief Inspector of Prisons'. Ar gael yn: https://hmiprisons.justiceinspectorates.gov.uk/hmipris_reports/children-on-short-term-remand/

Ffigur 3: Er bod nifer y plant a ddedfrydwyd yn yr ystâd ddiogel wedi gostwng, mae'r boblogaeth remand wedi aros yn fwy cyson

Data'r Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa, Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel yng Nghymru a Lloegr; mae'n cynnwys pobl ifanc 18 oed




Ffynhonnell: Adroddiad Ieuenctid yn y Ddalfa, 2026

Adran 1 Trosolwg o'r canfyddiadau

- 1.1 Yn 2025/26, fe wnaethom gynnal pum arolygiad - pedwar mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ac un yn y Ganolfan Hyfforddi Ddiogel. Gwelsom rywfaint o gynnydd yn gyffredinol, ond roedd y gwelliant yn y rhan fwyaf o sefydliadau yn araf ac yn fregus, ac roedd plant yn dal i dreulio gormod o amser yn eu celloedd. Er bod diogelwch wedi gwella yn Werrington a bod y gwaith a ddarparwyd yn Wetherby wedi gwella gweithgarwch pwrpasol, barnwyd nad oedd y ddau faes yn ddigon da.
- 1.2 Roedd tîm arwain sefydlog yn Werrington wedi gweithio i nodi plant a oedd yn aml wedi creu neu ddefnyddio arfau, a'u rhoi ar gynllun rheoli pedair wythnos. Roedd hyn yn cynnwys chwiliadau celloedd ychwanegol, cyfyngu ar freintiau fel bwyta allan o'r gell, a'r gofyniad i symud celloedd pan gawsant gyfarwyddyd, ac roedd hynny wedi arwain at ostyngiad yn y defnydd o arfau yn y sefydliad. Ar ben hynny, cafwyd rhywfaint o lwyddiant o ran lleihau nifer y plant yr oedd angen eu cadw ar wahân i'w gilydd am resymau diogelwch.
- 1.3 Roedd y llywodraethwr yn Wetherby wedi ymateb i wendidau sylweddol yn y ddarpariaeth addysg ac wedi gweithio i liniaru'r effaith drwy ddarparu mwy o waith a hyfforddiant galwedigaethol. Roedd y rhain yn cynnwys cyflwyno'r 'Gangen Q' (lle'r oedd plant yn gweithio gyda staff i wneud mân atgyweiriadau), prosiect garddwriaeth a chynllun rheoli gwastraff. Roedd y plant yn frwdfrydig am y cyfleoedd newydd hyn, a oedd yn caniatáu i rai gael mynediad at fwy nag 11 awr y dydd allan o'r gell.
- 1.4 Yn y Parc, roedd gwell cydweithio rhwng y darparwr addysg a'r carchar wedi ehangu'r ddarpariaeth addysg, sgiliau a gwaith, a oedd bellach yn cael eu hystyried yn dda gan Estyn. Roedd addysg wedi gwella'n sylweddol ac roedd y plant yn gwneud cynnydd da. Adeg yr arolygiad, roedd arweinwyr yn rheoli poblogaeth gynyddol ond nid oedd hyn wedi cael effaith negyddol ar ganlyniadau a oedd, yn ein barn ni, yn dda ym mhob un o'r pedwar prawf carchar iach.

Ffigur 4: Er bod gwelliant wedi bod ers arolygiadau blaenorol, roedd gormod o feysydd nad oeddent yn ddigon da

Canran yr arolygiadau a gafodd bob sgôr carchar iach gan arolygiaeth Carchardai EF o Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc yng Nghymru a Lloegr yn 2023-24 (n=5) a 2025/26 (n=4)



Ffynhonnell: Adroddiadau arolygiadau Arolygiaeth Carchardai EF

- 1.5 Er gwaethaf y gwelliannau hyn, roedd gwendidau parhaus a hirsefydlog mewn diogelwch ac addysg yn y sefydliadau. Dim ond Parc oedd yn ddigon diogel ac roedd Ofsted o'r farn bod effeithiolrwydd cyffredinol addysg yn 'annigonol' ym mhob Sefydliad Troseddwy'r Ifanc yn Lloegr a bod 'angen gwella' yn Nghanolfan Hyfforddi Ddiogel Oakhill. Roedd y materion hyn ar eu gwaethaf yn ne Lloegr. Yn Sefydliad Troseddwy'r Ifanc Feltham gwelsom anhrefn o ran rheoli ymddygiad; gwelsom lawer o enghreifftiau o reolau ddim yn cael eu gorfodi, ymddygiad gwael yn cael ei wobrwyo a phlant yn ymateb yn ymosodol i staff.
- 1.6 Yn Oakhill, roedd y canlyniadau mor bryderus fel bod Prif Arolygwyr Ofsted, Arolygiaeth Carchardai EF a'r Comisiwn Ansawdd Gofal wedi rhoi'r Protocol Hysbysu Brys ar waith. Ychydig cyn ein hymweliad, roedd cyfarwyddwr y ganolfan ac un o'r ddau ddirprwy gyfarwyddwr wedi cael eu hatal yn ffurfiol o'u dyletswyddau. Roedd y dirprwy gyfarwyddwr arall hefyd wedi cael ei ddiswyddo'n ddiweddar o'i gyflogaeth. Roedd 30 aelod arall o staff wedi cael eu gwahardd dros dro yn ystod y misoedd cyn yr arolygiad. Roedd gwendidau sylfaenol o ran diogelu yn y Ganolfan Hyfforddi Ddiogel, a methiant gan arweinwyr i roi gwybod am faterion difrifol i wasanaethau plant yr awdurdod lleol a swyddog dynodedig yr awdurdod lleol. Roedd hyn yn achosi oedi sylweddol o ran ymchwiliadau a chymau gweithredu i amddiffyn plant rhag niwed. Nid oedd arweinwyr yn dilyn rheolau'r Ganolfan Hyfforddi Ddiogel wrth wahanu plant, weithiau am sawl diwrnod. Roedd plant hefyd yn wynebu oedi wrth gael gafael ar ofal iechyd ar gyfer cyflyrau

iechyd corfforol a meddyliol ac roedd y broses o roi meddyginiaethau yn anniogel.

- 1.7 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae sefydliadau sy'n dal plant wedi gweld sawl gwawr ffug. Er bod unrhyw welliant mewn canlyniadau i'r grŵp hwn o garcharorion sy'n arbennig o agored i niwed i'w groesawu, mae angen ei gynnal a'i gyflymu. Yr her i arweinwyr cenedlaethol yw cydgrynhai enillion bach 2025/26 a manteisio ar y boblogaeth is i greu system o sefydliadau cystodaeth sy'n gallu diwallu'r lefelau uchel o anghenion sydd gan y plant sy'n dal i gael eu cadw.

Adran 2 Pwy yw'r plant yn y ddalfa?

- 1.8 Mae Arolygiaeth Carchardai EF yn cynnal arolwg o blant ym mhob arolygiad o Sefydliad Troseddwy'r Ifanc neu Ganolfan Hyfforddi Ddiogel. Ein nod yw cynnig holiadur i bob plentyn yn y sefydliad, sy'n cynnwys gwybodaeth ddemograffig hunan-gofnodedig. Ar gyfer yr adroddiad hwn, cyfunir y data o'r holl arolygon drwy gydol y flwyddyn. Oherwydd natur data hunan-gofnodedig, mae'r cyfrannau'n adlewyrchu atebion y plant ac efallai na fyddant yn cyd-fynd ag ystadegau cenedlaethol.
- 1.9 Mae'r mwyafrif llethol o blant mewn Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc a'r Ganolfan Hyfforddi Ddiogel yn fechgyn (97%) ac mae bron pob un (99%) dros 15 oed. Dywedodd saith y cant o'r plant a holwyd eu bod yn rhieni eu hunain.
- 1.10 Mae data ein harolwg yn dangos yn gyson bod plant mewn Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel yn wahanol iawn i'r boblogaeth yn y gymuned. O'r plant a arolygwyd yn 2025/26, dywedodd 64% wrthym eu bod wedi bod mewn gofal awdurdod lleol o'r blaen, o'i gymharu â llai nag 1% o blant yn y boblogaeth gyffredinol². Dywedodd pedwar deg wyth y cant fod ganddynt broblemau iechyd a dywedodd 38% fod ganddynt anabledd, gan dynnu sylw at yr heriau y gallent fod wedi'u hwynebu cyn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol.
- 1.11 Dywedodd saith y cant o blant eu bod yn dod o'r gymuned Teithwyr, sef y grŵp sy'n cael ei orgynrychioli fwyaf o hyd yn y ddalfa i blant.


Plant ar remand

- 1.12 O'r plant a ymatebodd i'n harolwg, roedd 41% naill ai heb gael eu dyfarnu'n euog ac yn cael eu cadw ar remand neu'n aros i gael eu dedfrydu. Mae hon yn gyfran lawer uwch nag yn y system carchardai i oedolion.

² Yr Adran Addysg (2025). 'Children looked after in England including adoptions'. Ar gael yn: [Release home - Children looked after in England including adoptions - Explore education statistics - GOV.UK](#)

Ffigur 5: Mae cyfran y plant nad ydynt wedi cael eu dedfrydu yn sylweddol uwch nag yn yr ystâd oedolion gwrywaidd

Carchardai, Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel a arolygwyd yng Nghymru a Lloegr



Ffynhonnell: Data arolwg Arolygiaeth Carchardai EF, 2025-26

Plant ar remand tymor byr

Rhwng 1 Awst 2024 a 31 Gorffennaf 2025, cafodd 190 o blant eu remandio i'r ddalfa cyn cael eu rhoi ar fechnïaeth. Treuliodd bron i hanner y plant ar remand bythefnos neu lai yn y ddalfa, ac roedd yr arosiadau byr hyn yn golygu nad oeddent yn cael llawer o fynediad, os o gwbl, at addysg neu gymorth ystyrlon.

Edrychwyd yn fanwl ar brofiadau 25 o blant a dreuliodd saith niwrnod neu lai yn y ddalfa. Roedd y rhan fwyaf yn y ddalfa am y tro cyntaf, ychydig a gafodd wybodaeth glir ynghylch pam eu bod yn cael eu cadw, a dywedodd rhai eu bod yn ddryslyd ac yn ofnus. Roedd llawer yn agored i niwed ac roedd ganddynt anghenion cymhleth, gan gynnwys cyflyrau niwrowahanol, profiad blaenorol o drawma, a phrofiad o fod yng ngofal awdurdod lleol.


Mewn gormod o achosion gwelsom fod plant yn cael eu remandio i'r ddalfa oherwydd nad oedd dewis credadwy arall wedi cael ei gyflwyno yn y llys. Gellid bod wedi osgoi'r canlyniad hwn pe bai gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid (GCI) wedi cael eu hysbysu'n gynharach, pe bai gwasanaethau cymunedol wedi'u cydlynu'n well, a phe bai mwy o eglurder rhwng y llysoedd a'r GCI ynghylch elfennau allweddol pecyn mechnïaeth cadarn.

Oedolion ifanc yn ystâd y plant

- 1.13 Roedd nifer y bobl ifanc 18 oed a ymatebodd i'n harolwg wedi gostwng ond wedi aros ar 20% o'r boblogaeth gyffredinol yn y ddalfa ieuenctid. Mae'r gostyngiad yn deillio o ymdrech ar y cyd i drosglwyddo pobl ifanc 18 oed sydd ar remand neu'n bwrw dedfrydau hir i'r ystâd oedolion.

Ffigur 6: Mae cyfran y boblogaeth yn y ddalfa ieuenctid a oedd yn 18 oed wedi parhau i ostwng o'i lefel uchaf yn 2023-24

Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel yng Nghymru a Lloegr




Ffynhonnell: Data arolwg Arolygiaeth Carchardai EF

Mae rhai grwpiau'n dal i gael eu gorgynrychioli

- 1.14 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r system cyfiawnder ieuenctid wedi bod yn llawer mwy llwyddiannus o ran dargyfeirio rhai grwpiau o blant o'r ddalfa nag eraill. O ganlyniad, er bod nifer y plant sy'n cael eu cadw yn y ddalfa wedi gostwng, mae plant Mwslimaidd a rhai o grwpiau ethnig ar wahân i wyn yn cael eu gorgynrychioli fwyfwy. Mae plant Mwslimaidd bellach yn 38% o'r boblogaeth, o'i gymharu â 21% yn 2019-20.
- 1.15 Mae cyfran y plant o grŵp ethnig ar wahân i wyn wedi aros yr un fath ar lefel hanesyddol uchel o 63% o'r boblogaeth, o'i gymharu â 33% pan ddechreuon ni ofyn y cwestiwn hwn am y tro cyntaf yn 2001.

Ffigur 7: Mae cyfran y plant a ddywedodd eu bod yn perthyn i grŵp ethnig ar wahân i wyn yn dal ar ei lefel uchaf ers 2014

Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel yng Nghymru a Lloegr



Ffynhonnell: Data arolwg Arolygiaeth Carchardai EF


Adran 3 Beth oedd ein canfyddiadau?

- 1.16 Mae'r adran hon yn cyfuno canfyddiadau ein harolwg, cyfweiliadau un-i-un â phlant a gynhaliwyd yn ystod pob arolygiad (gweler atodiad X) a chanfyddiadau arolygiadau yn ystod 2025-26.

Roedd rheoli trais ac ymddygiad yn parhau i fod yn heriau

Ffigur 8: Mae nifer y plant sy'n dweud eu bod wedi teimlo'n anniogel ac yn teimlo'n anniogel ar hyn o bryd yn dal yn rhy uchel

Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel yng Nghymru a Lloegr



Ffynhonnell: Data arolwg Arolygiaeth Carchardai EF

- 1.17 O'r plant a arolygwyd, roedd 39% wedi teimlo'n anniogel ar ryw adeg a dywedodd 14% eu bod yn teimlo'n anniogel adeg yr arolwg. Roedd y canfyddiadau hyn yn amrywio ar draws y sefydliadau: yn Werrington roedd 20% yn teimlo'n anniogel, o'i gymharu â 10% yn y Parc a Feltham.
- 1.18 Canfu ein harchwiliadau fod trais yn parhau i fod yn nodwedd reolaidd o fywyd mewn sefydliadau plant. Roedd plant yn Feltham, y Sefydliad Troseddwy'r Ifanc mwyaf treisgar adeg yr arolygiad, wedi bod yn gysylltiedig â dros 400 o ymosodiadau yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac roedd 126 ohonynt wedi cynnwys arfau. Yn Werrington, roedd lefelau trais wedi cynyddu: bu 324 o ymosodiadau, ac roedd angen triniaeth yn yr ysbyty ar 44 ohonynt. Yn Wetherby (a oedd yn dal mwy o blant na

Feltham neu Werrington) bu bron i 500 o ymosodiadau. Hyd yn oed yn y Parc, lle'r oedd plant yn teimlo'n fwy diogel, cafwyd 87 achos o drais. Roedd pob un o'r digwyddiadau hyn wedi cael effaith sylweddol ar blant a staff yn y sefydliadau, a oedd yn cael eu hanafu'n aml.

- 1.19 Mewn cyfweiliadau, dywedodd rhai plant wrthym fod teimlo'n anniogel yn y ddalfa yn anochel a'i fod yn gysylltiedig â natur anrhagweladwy'r amgylchedd, yn ogystal â gweld plant eraill yn ymladd ac yn cario arfau. Adroddodd plant ym mhob safle am wrthdaro rhwng gangiau a oedd yn gysylltiedig yn gyffredinol â phroblemau yn y gymuned neu anghydfodau o fewn y sefydliad, gan gynnwys lle'r oedd plant wedi'u lleoli. Dywedasant hefyd fod lefelau uchel o ddefnyddio grym ac ymddygiad amharchus gan staff yn cyfrannu at deimladau o ddifffyg diogelwch.
- 1.20 Soniodd plant yn rheolaidd am ymosodiadau grŵp. Dywedasant wrthym eu bod wedi ymladd i amddiffyn eu ffrindiau neu sefydlu eu hunain mewn grŵp yn y ddalfa, ac roeddent yn poeni y byddai peidio â chymryd rhan yn y digwyddiadau hyn yn eu gwneud yn darged yn y dyfodol.
- 1.21 Dywedodd y plant y buom yn siarad â nhw wrthym fod y rhan fwyaf o bobl ifanc yn cario arfau i'w hamddiffyn. Teimlai rhai fod cario arf yn rhan o'r diwylliant yn y ddalfa a bod yr offer hyn yn aml yn cael eu defnyddio mewn brwydrau. Roedden nhw'n dweud bod arfau sy'n cael eu defnyddio'n aml yn cynnwys cerrig mewn sanau, sgriwiau, plygiau, caeadau tun, cyllyll plastig a llafnau rasel. Yn Wetherby, roedd gwaharddiad diweddar ar lafnau rasel wedi golygu bod plant wedi dechrau creu arfau o fathau eraill o fetel, gan gynnwys dalennau drysau alwminiwm, handlenni drysau, ffenestri, troliau bwyd a ffensys. Mynegodd plant yn Wetherby bryder bod yr arfau hyn yn fwy peryglus na'r rhai a ddefnyddiwyd yn flaenorol.
- 1.22 Er bod plant yn cael eu harchwilio'n rheolaidd am arfau, nid oedd hyn bob amser yn effeithiol. Yn Wetherby, roedd ffyn canfod metel weithiau'n methu canfod yr arfau metel yr oedd plant yn eu cario. Roedd arweinwyr yn Werrington wedi cyflwyno cyllyll a ffyrch a brwsys dannedd metel y gellir eu canfod, ac wedi cael gwared â llafnau rasel mewn ymgais i leihau mynediad at arfau.
- 1.23 Dywedodd y plant wrthym nad oedd y staff bob amser yn gwneud digon i'w cadw'n ddiogel. Dywedasant nad oedd staff bob amser yn cydnabod eu pryderon ynghylch cymysgu â rhai plant eraill neu symud adeiniau, ac nad oeddent bob amser yn ymyrryd yn ddigon cyflym yn ystod ymosodiadau neu frwydrau.
- 1.24 Fodd bynnag, dywedodd plant yn y Parc fod presenoldeb staff yn eu helpu i deimlo'n ddiogel. Roedd pum swyddog ar adain bob amser, ac roeddent wedi creu awyrgylch cadarnhaol.
- 1.25 Dywedodd y plant wrthym nad oedd y staff bob amser yn adnabod gwahanol fathau o fwlio ac na fyddent o reidrwydd yn rhoi gwybod i'r staff am hynny. Dywedodd rhai y byddai'n well ganddynt ddelio â'r

mater eu hunain, tra bod eraill yn poeni am staff a phlant eraill yn hel clecs, a allai eu rhoi mewn perygl ychwanegol. Yn ein harolwg, dim ond 26% ddywedodd y bydden nhw'n dweud eu bod yn cael eu bwlio neu eu herlid gan bobl ifanc eraill, a dywedodd llai na hanner (49%) y bydden nhw'n rhoi gwybod am hynny pe baen nhw'n cael eu bwlio neu eu herlid gan staff. Mae hyn yn dangos bod nifer sylweddol o ddigwyddiadau nad ydynt yn cael eu hadrodd.

- 1.26 Un o'r prif resymau dros lefelau uchel parhaus o drais oedd bod staff yn rheoli ymddygiad yn aneffeithiol neu'n anghyson. Roedd hyn yn wendid arbennig yn Feltham a Werrington.


'Roedd arweinwyr wedi cynllunio system o gymhellion ar unwaith, wythnosol a thymor hwy i geisio cymell plant i ymddwyn yn dda. Fodd bynnag, roedd gweithredu gwael yn tanseilio eu heffeithiolrwydd yn sylfaenol. Roedd gwobrau ar unwaith (teilyngdodau) yn cael eu defnyddio'n anghyson, gyda rhai plant yn mynnu teilyngdodau i roi'r gorau i ymddygiad aflonyddgar. Roedd hon yn broblem benodol ym maes addysg lle'r oedd cydymffurfio'n cael ei wobrwyo'n rhy aml yn hytrach nag ymdrech neu waith da. Yn ogystal, ni ddarparwyd cymhellion allweddol yn y cynllun gwobrwyo wythnosol [...] oherwydd bod amser allan o'r gell mor gyfyngedig.'

Adroddiad arolygu Werrington

- 1.27 Dim ond 44% o blant a ddywedodd fod cynlluniau gwobrwyo neu gymell yn eu sefydliad yn eu hannog i ymddwyn yn dda, er bod hyn wedi gwella o 34% yn 2024-25.

Ffigur 9: Dywedodd y plant bod gwobrau a chymhellion ar eu mwyaf effeithiol a theg yn y Parc, o'u cymharu â sefydliadau plant eraill

Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel yng Nghymru a Lloegr



Ffynhonnell: Data arolwg Arolygiaeth Carchardai EF, 2025-26

- 1.28 Ar ben hynny, dim ond 35% o blant oedd yn meddwl bod y system wobrwyo yn deg, a dywedodd 37% nad oedd staff fel arfer yn egluro beth roeddent wedi'i wneud o'i le pan oeddent yn mynd i drwbl. Yn aml, dywedodd plant wrthym nad oedd staff yn cymhwyso rheolau'n deg ac nad oedd y rhesymau dros gosbau bob amser yn cael eu hegluro. Dywedwyd bod slipiau papur gyda manylion am y cosbau yn cael eu llithro'n aml o dan eu drysau, yn hytrach na staff yn siarad â nhw wyneb yn wyneb.

“Rydwi ar uned uwch a phrin ei bod hi'n werth aros ymlaen gan fod staff yr uned bob amser eisiau i ni fynd y tu ôl i'n drysau ac ati.”

Plentyn yn Feltham

“Yr IEP, does dim gwahaniaeth rhwng safonol ac uwch a sylfaenol. Yr unig wahaniaeth yw dim teledu.”

Plentyn yn Werrington


- 1.29 Heb reoli ymddygiad yn effeithiol, roedd arweinwyr yn dal i ddibynnu'n drwm ar gadw plant ar wahân er mwyn osgoi digwyddiadau treisgar. Roedd hyn yn golygu bod staff yn aml yn rheoli nifer o wahanol grwpiau ar adain ac weithiau'n gwneud camgymeriadau. Cyfeiriodd y plant at y camgymeriadau hyn, lle'r oedd grwpiau na ddylent fod wedi gallu cymysgu yn gallu cael mynediad at ei gilydd, fel 'gwallau giât'. Er bod plant wedi dweud wrthym mai anaml iawn y byddai gwallau giât yn digwydd, roeddent weithiau'n arwain at anafiadau difrifol ac yn cyfrannu at deimlo'n anniogel.

Defnyddio grym

- 1.30 Canlyniad lefelau cyson uchel o drais ac anhrefn yw bod defnyddio grym yn nodwedd reolaidd o fywyd mewn Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc a Chanolfan Hyfforddi Ddiogel Oakhill. Dywedodd dros ddwy ran o dair o blant (68%) eu bod wedi cael eu hatal gan staff. Yn gyffredinol, roedd plant wedyn yn cael eu gweld gan staff gofal iechyd a lleihau a rheoli ataliaeth gorfforol (MMPR). Fodd bynnag, nid oedd pob plentyn yn Oakhill wedi cael ei weld gan y timau hyn, ac roedd rhai'n teimlo nad oedd y sgysiau bob amser yn ymdrin â'u llesiant.

Ffigur 10: Dywedodd cyfran uwch o blant eu bod wedi cael eu hatal yn Werrington, ond roedd y plant hynny hefyd yn fwy tebygol o ddweud bod staff yn siarad â nhw amdano wedyn nag mewn sefydliadau plant eraill

Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel yng Nghymru a Lloegr



Ffynhonnell: Data arolwg Arolygiaeth Carchardai EF, 2025-26

- 1.31 Y Parc oedd yr unig sefydliad lle nad oedd staff wedi defnyddio technegau ysgogi poen ers yr arolygiad blaenorol. Mewn safleoedd eraill, fe wnaethom barhau i ganfod bod technegau ysgogi poen yn cael eu defnyddio mewn digwyddiadau lle nad oedd bygythiad o niwed difrifol.

‘Roedd technegau ysgogi poen wedi cael eu defnyddio wyth gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf ac, ar rai achlysuron, roeddent wedi cael eu hystyried yn amhriodol gan y panel adolygu ataliaeth annibynnol.’

Adroddiad arolygu Werrington

‘Defnyddiwyd technegau ysgogi poen ar 11 achlysur (10 mandiblaidd ac un plygiad arddwrn gwrthdro), o’i gymharu â naw cyn hynny. Nid oedd y technegau hyn bob amser yn cael eu defnyddio’n briodol nac yn gymesur.’

Adroddiad arolygu Wetherby


- 1.32 Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd chwistrell analluogi PAVA i staff arbenigol sy’n gweithio mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc. Gwelsom PAVA yn cael ei dynnu allan, ond ddim yn cael ei ddefnyddio ar un achlysur yn unig yn ystod digwyddiad yn ymwneud â dau o blant ac arf yn Wetherby. Defnyddiwyd PAVA mewn safleoedd eraill ar ôl ein harolygiadau, ac rydym yn parhau i fod â phryderon ynghylch ei ddefnyddio i ddatrys problemau a achosir gan ddulliau rheoli ymddygiad aneffeithiol ac anghyson.

Gwahanu oddi wrth leoliad arferol

- 1.33 Gellir gwahanu plant sydd mewn perygl neu sy’n peri risg i eraill oddi wrth eu cyfoedion yn y Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a’r Ganolfan Hyfforddi Ddiogel. Mae hwn yn ddewis olaf ac ni ddylid ei ddefnyddio fel cosb oherwydd yr effaith y mae ynysu yn ei chael ar lesiant plentyn. Mae’r effaith hon wedi’i chofnodi’n helaeth. Er gwaethaf y mesurau diogelu hyn, dywedodd 56% o blant eu bod wedi cael eu gwahanu oddi wrth eu cyfoedion fel cosb.

Ffigur 11: Dywedodd cyfran uwch o blant eu bod wedi cael eu cadw oddi wrth bobl ifanc eraill yn Wetherby nag mewn sefydliadau plant eraill

Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel yng Nghymru a Lloegr



Ffynhonnell: Data arolwg Arolygiaeth Carchardai EF, 2025-26

- 1.34 Yn Oakhill, mae rheolau'r Ganolfan Hyfforddi Ddiogel yn datgan mai dim ond am gyfnod byr y dylid gwahanu plant oddi wrth eraill, ac am ddim mwy na thair awr. Fodd bynnag, gwelsom blant a oedd wedi cael eu gwahanu am sawl diwrnod.

Roedd defnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn fygythiad a oedd yn dod i'r amlwg


- 1.35 Er mai trais ac anhrefn oedd y flaenoriaeth fwyaf amlwg o hyd o ran diogelwch, roedd masnachu cyffuriau a chontraband arall yn broblem a oedd yn dod i'r amlwg ar draws yr ystâd. Yn y Parc, roedd cyfran y canlyniadau positif o brofion cyffuriau ar hap wedi codi i 11% ac yn Werrington roedd 19% o'r profion a oedd yn seiliedig ar wybodaeth yn gadarnhaol. Nid oedd Wetherby yn cynnal profion ar hap ac nid oedd gan arweinwyr yn Feltham gynllun cydlynol i fynd i'r afael â'r mater hwn a oedd yn datblygu.
- 1.36 Yn ein cyfweiliadau, dywedodd plant yn Oakhill a Werrington eu bod yn ymwybodol o gontraband yn y sefydliadau, gan gynnwys cyffuriau anghyfreithlon, ffyn USB a fêps. Dywedodd y plant wrthym nad oedd staff bob amser yn gwneud digon i atal yr eitemau hyn rhag llifo i mewn i'r sefydliad.

Perthynas wan â staff yn tanseilio ymgysylltiad

- 1.37 Roedd y berthynas wan rhwng y staff a'r plant yn tanseilio'r gwaith o reoli ymddygiad a chynnydd mewn sgiliau addysg a gwaith.
- 1.38 Dim ond 51% o blant a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo bod y rhan fwyaf o staff yn eu sefydliad yn gofalu amdanynt, ffigur sydd wedi aros yn gyson isel yn ystod y blynnyddoedd diwethaf. Dywedodd un o bob tri phlentyn nad oedd ganddynt aelod o staff y gallent droi atynt am gymorth pe bai ganddynt broblem.

Ffigur 12: Roedd cyfran uwch o blant yn y Parc yn teimlo bod staff yn gofalu amdanynt nag mewn sefydliadau plant eraill

Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel yng Nghymru a Lloegr



Ffynhonnell: Data arolwg Arolygiaeth Carchardai EF, 2025-26

Meithrin ymddiriedaeth: pwysigrwydd perthnasoedd cadarnhaol mewn sefydliadau troseddwy'r ifanc


Ym mis Mehefin 2025, fe wnaethom gyhoeddi'r adolygiad thematig hwn ynghylch pwysigrwydd perthnasoedd mewn Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc. Canfu'r adolygiad fod plant a staff eisiau'r un pethau: cysondeb a digon o amser i ddod i adnabod ei gilydd yn iawn. Ac eto, roedd llawer o agweddau ar fywyd bob dydd yn rhwystro'r rhyngweithio hwn. Roedd plant yn aml yn cael eu cloi am gyfnodau hir, roedd staff yn aml yn cael eu symud i wahanol unedau ac nid oedd llawer o leoedd i blant siarad yn breifat â staff. Yn hytrach na bwyta gyda'i gilydd, roedd y plant yn bwyta ar eu pen eu hunain yn eu celloedd i raddau helaeth, ac roedd diffyg cyfleoedd rhyngweithio anffurfiol yn golygu mai dim ond wrth iddynt gael eu hebrwng o amgylch y sefydliad y siaradai'r swyddogion â nhw. Dywedodd y rhan fwyaf o blant

nad oeddent yn gallu cael sgwrs wythnosol ystyrlon gydag aelod o staff roeddent yn eu hadnabod.

- 1.39 Yn ein hadolygiad thematig yn 2018 ynghylch cymell a hyrwyddo ymddygiad da³, fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith bod plant a oedd â pherthynas dda â staff yn fwy tebygol o gael eu cymell i ymgysylltu â chynlluniau rheoli ymddygiad, addysg ac ymyriadau eraill. Wyth mlynedd yn ddiweddarach, mae rheoli ymddygiad yn flaenoriaeth gynyddol. Fodd bynnag, mae anghysondeb cronig a methiant i ddarparu amser rheolaidd i staff ddod i adnabod y plant yn eu gofal yn difetha'r perthnasoedd sydd eu hangen i wneud cynnydd ystyrlon.

Roedd bywyd bob dydd yn achosi rhwystredigaeth

- 1.40 Mewn cyfweiliadau, dywedodd y plant wrthym fod eu hadeiniau a'u celloedd yn lân ac yn daclus ar y cyfan, ac roedd canfyddiadau ein harchwiliad yn cefnogi'r farn hon. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau sylweddol ym maint pob uned: yn Oakhill gallai unedau byw ddarparu llety i hyd at wyth o blant tra bod plant yn Werrington a Wetherby yn byw mewn unedau a allai ddal dros 40 o blant. Roedd yr unedau mwy hyn yn teimlo'n llawer mwy sefydliadol ac nid oeddent yn cefnogi meithrin perthynas effeithiol rhwng plant a staff rheng flaen.




Unedau byw yn Wetherby (chwith) a Werrington (dde)

- 1.41 Nid oedd yr adeiniau bob amser yn ddigon tawel i blant; mewn cyfweiliadau, roedd yr unedau mwy yn Werrington yn cael eu disgrifio fel rhai swnllyd a 'gwyllt'. Fodd bynnag, hyd yn oed ar rai o'r adeiniau llai yn Wetherby, dywedodd plant fod yna sgrechian a gweiddi allan o ffenestri yn hwyr gyda'r nos. Yn gyffredinol, dim ond 51% o blant a ddywedodd ei bod yn ddigon tawel iddynt ymlacio neu gysgu yn y nos.

³ Arolygiaeth Carchardai EF (2024). 'Improving behaviour in prisons: A thematic review'. Ar gael yn: https://hmi.prisons.justiceinspectorates.gov.uk/hmi/pris_reports/incentivising-and-promoting-good-behaviour/

Ffigur 13: Dywedodd cyfran uwch o blant yn Oakhill fod eu hadeiniau yn ddigon tawel i gysgu yn y nos nag mewn sefydliadau plant eraill

Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel yng Nghymru a Lloegr




Ffynhonnell: Data arolwg Arolygiaeth Carchardai EF, 2025-26

- 1.42 Roedd celloedd y Parc wedi cael eu hailwampio ers yr arolygiad diwethaf ac erbyn hyn roedd cawodydd ynddynt. Dyma'r Sefydliad Troseddwy'r Ifanc olaf i gael ei adnewyddu ac roedd yn golygu bod gan y mwyafrif helaeth o blant ar draws yr ystâd fynediad at gawodydd yn y celloedd erbyn hyn.
- 1.43 Roedd rheoli tymheredd celloedd yn fater rhwystredig iawn i blant, ac yn ein harolwg dim ond 37% o blant ddywedodd fod tymheredd eu cell fwy neu lai'n iawn. Mewn cyfweiliadau, soniodd plant yn Werrington ac Oakhill am ddiffyg ffenestri a fentiau, ac yn Wetherby dywedodd plant wrthym fod y system wresogi wedi torri'n ddiweddar.

Ffigur 14: Dywedodd cyfran uwch o blant yn y Parc fod tymheredd yr ystafell fwy neu lai'n iawn nag mewn sefydliadau plant eraill

Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel yng Nghymru a Lloegr



Ffynhonnell: Data arolwg Arolygiaeth Carchardai EF, 2025-26

Bwyd

- 1.44 Roedd gan y plant farn wahanol iawn am ansawdd a swm y bwyd a gawsant. Dim ond 35% ddywedodd fod y bwyd yn eithaf da neu'n dda iawn a dywedodd 37% eu bod yn cael digon i'w fwyta amser bwyd bob amser neu'r rhan fwyaf o'r amser. Dywedodd plant wrthym yn aml eu bod yn ychwanegu at brydau bwyd gyda phryniannau yn y ffreutur pan oedd hynny'n bosibl.
- 1.45 Roedd y safbwyntiau hyn yn amrywio'n sylweddol rhwng sefydliadau. Roedd y canfyddiadau gwaethaf yn Oakhill.

'Mae'r brif gegin yn anhylan. Mae'r lloriau, cefnau drysau ac ardaloedd y staff mewn cyflwr gwael. Felly, mae bwyd yn cael ei baratoi mewn amgylchedd a allai gael effaith negyddol ar iechyd plant.'


Adroddiad arolygu Oakhill

- 1.46 Yn y Parc, roedd y plant yn llawer mwy cadarnhaol, yn enwedig am y ddarpariaeth yn ystod yr wythnos a oedd yn dod o fwyty'r staff yn hytrach na'r brif gegin. Gwahaniaeth allweddol arall yn y Parc oedd y gallai plant fwyta prydau gyda'i gilydd y tu allan i'w celloedd. I'r gwrthwyneb, dywedodd rhai plant yn Werrington mai dim ond unwaith bob yn ail wythnos yr oeddent yn cael bwyta allan o'u hystafell, ac roedd hyn hyd yn oed yn cael ei ganslo'n rheolaidd.

Ffigur 15: Dywedodd plant yn y Parc eu bod yn fwy bodlon â'r bwyd nag mewn sefydliadau plant eraill

Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel yng Nghymru a Lloegr

- A yw'r bwyd yma yn eithaf da/da iawn?
- A wyt ti'n cael digon i'w fwyta yma amser bwyd bob amser / y rhan fwyaf o'r amser?




Ffynhonnell: Data arolwg Arolygiaeth Carchardai EF, 2025-26

Triniaeth deg a chynhwysiant

- 1.47 Er bod y rhan fwyaf o grwpiau o blant wedi rhoi adroddiadau tebyg am eu triniaeth, roedd y rhai ag anabledd yn llawer llai cadarnhaol na'u cyfoedion heb anabledd.
- 1.48 Roedd plant a ddywedodd fod ganddynt anabledd yn fwy tebygol o fod yn wyn ac o gymuned Teithwyr na'r rhai nad oedd ganddynt anabledd, a oedd yn awgrymu naill ai crynodiad o angen yn y grwpiau hynny neu gyfraddau adrodd gwahanol yn y boblogaeth. Canfu ein harchwiliadau fod yr anableddau hyn yn llawer mwy tebygol o fod yn anawsterau dysgu, cyflyrau iechyd meddwl neu faterion sy'n ymwneud â niwrowahaniaeth nag anableddau corfforol, a oedd yn dal yn brin ymysg plant yn y ddalfa. Roedd plant a ddywedodd fod ganddynt anabledd hefyd yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt broblem gyffuriau pan wnaethant gyrraedd y ddalfa.
- 1.49 Roedd canfyddiadau plant ag anabledd o ddiogelwch yn wael iawn. Dywedodd hanner y plant hyn eu bod wedi teimlo'n anniogel, gyda 65% yn dweud eu bod wedi dioddef cam-drin geiriol a 16% wedi profi eu heiddo'n cael ei ddwyn.
- 1.50 Roedd y plant hyn hefyd yn llai tebygol na'u cyfoedion o ddweud eu bod yn cael o leiaf ddwy awr allan o'u cell yn ystod yr wythnos.

Ffigur 16: Roedd plant a ddywedodd fod ganddynt anabledd yn fwy tebygol o deimlo'n anniogel a dioddef cam-drin geiriol a dwyn na'r rheini na roddodd wybod am anabledd

Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel yng Nghymru a Lloegr




Ffynhonnell: Data arolwg Arolygiaeth Carchardai EF, 2025-26

- 1.51 Mae'r canfyddiadau'n bwysig oherwydd maent yn awgrymu y byddai cyfeirio adnoddau at y rheini sydd ag anabledd yn cael effaith sylweddol ar ganfyddiadau o ddiogelwch ar draws y system.

Mae amser allan o'r gell yn gwella ond nid yw'r addysg yn ddigon da

Ffigur 17: Dywedodd plant mewn rhai sefydliadau eu bod yn cael llawer llai o amser allan o'u hystafell ar benwythnosau o'i gymharu ag yn ystod yr wythnos nag mewn sefydliadau plant eraill

Cyfran y plant sy'n dweud eu bod yn treulio mwy na dwy awr allan o'u hystafell bob dydd, Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel yng Nghymru a Lloegr



Ffynhonnell: Data arolwg Arolygiaeth Carchardai EF, 2025-26


- 1.52 Dywedodd llai o blant eu bod yn cael llai na dwy awr allan o'r gell yn ystod yr wythnos neu yn ystod yr wythnos na'r llynedd. Fodd bynnag, roedd yr amser cyfartalog allan o'r gell yn Feltham a Werrington yn dal yn wael, sef llai na phedair awr y dydd.
- 1.53 Roedd amser allan o'r gell ar ei orau yn Oakhill, lle dywedodd plant wrthym y gallent gael hyd at 13 awr y dydd allan o'u hystafell yn gyson a bod ganddynt fynediad da at amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys clwb ffilmiau a sesiynau gwallt a harddwch gyda'r nos ac ar benwythnosau.
- 1.54 Roedd y llywodraethwr yn Wetherby wedi bod yn greadigol yn wyneb darpariaeth addysg wael, gan ganolbwyntio ar wella hyfforddiant gwaith a hyfforddiant galwedigaethol. Roedd hyn wedi gwella'r amser cyfartalog allan o'r gell i bum awr ac 20 munud yn ystod yr wythnos a thair awr a 43 munud ar benwythnosau. Fodd bynnag, roedd y cyfartaleddau hyn yn cuddio amrywiad sylweddol. Gallai plant a oedd yn cymryd rhan yn y cyfleoedd cyflogaeth newydd gael 11.5 awr y dydd allan o'u cell yn ystod yr wythnos, tra bod y rhai sy'n ddarostyngedig i reol 49 (arwahanu o'r brif boblogaeth) yn cael ychydig dros ddwy awr ar gyfartaledd.
- 1.55 Roedd amser allan o'r gell ar y penwythnos, ac i lawer ar ddydd Gwener, yn amrywio, gyda llai o amser allan o'r gell yn aml neu fynediad at weithgareddau fel y gampfa. Dim ond 59% ddywedodd y

gallent dreulio mwy na dwy awr allan o'u cell ar y penwythnos. Fodd bynnag, roedd plant yn Oakhill yn cael eu datgloi'n gyson ac yn gallu mynychu gweithgareddau ar y penwythnos.

- 1.56 Roedd plant yn y Parc hefyd yn gallu cael gafael ar ystod ehangach o weithgareddau cyfoethogi gyda phob plentyn yn cael 12 awr o weithgarwch yr wythnos.
- 1.57 Y broblem sylfaenol gyda gweithgarwch pwrpasol oedd ansawdd yr addysg, y sgiliau a'r gwaith. Dim ond yn y Parc y barnwyd bod hyn yn ddigon da ac roedd yn annigonol ym mhob un o'r tri Sefydliad Troseddwyd Ifanc yn Lloegr. Ar draws yr ystâd, dywedodd 16% o blant nad oeddent yn ymgymryd ag unrhyw ymyriadau addysg, gwaith nac ymddygiad troseddol ac roedd llawer mwy ddim yn cael digon o amser cyswllt i wneud cynnydd.

Ffigur 18: Nododd canran uwch o blant eu bod yn ymgymryd ag addysg yn hytrach na gweithgareddau eraill

Sefydliadau Troseddwyd Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel yng Nghymru a Lloegr



Ffynhonnell: Data arolwg Arolygiaeth Carchardai EF, 2025-26

- 1.58 Yn Werrington, nid oedd arweinwyr wedi gwella addysg, sgiliau na gwaith ers yr arolygiad blaenorol. O ganlyniad, roedd llawer gormod o blant yn gadael heb ddysgu na chyflawni dim a fyddai'n gwella eu rhagolygon ar ôl cael eu rhyddhau.

“Gwneud addysg yn brif flaenoriaeth a rhoi'r gorau i dynnu pobl allan o addysg am ddim rheswm. Llawer mwy o amser allan o'r gell.”

Plentyn yn Werrington

- 1.59 Roedd y sefyllfa'n debyg yn Feltham lle'r oedd problemau gyda rheoli ymddygiad a thrais yn golygu nad oedd plant yn cael digon o addysg i ddiwallu eu hawl na'u hangen. Roedd presenoldeb yn y gwersi yn isel iawn ac roedd prydlondeb yn wael. O ganlyniad, roedd y rhan fwyaf o


blant ond yn derbyn hanner yr amser a ddyrannwyd mewn gwersi, a rhai yn derbyn hyd yn oed llai.

- 1.60 Hyd yn oed yn Oakhill, lle roedd plant yn cael eu datgloi ac yn cael addysg, roedd y cwricwlwm yn rhy gyfyng i ddiwallu eu hanghenion. Roedd hyn yn atal plant iau rhag cael mynediad at lawer o bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol.

Ffigur 19: Plant yn Feltham oedd y lleiaf tebygol o ddweud eu bod wedi dysgu rhywbeth a fydd yn eu helpu ar ôl cael eu rhyddhau

Sefydliadau Troseddwyd Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel yng Nghymru a Lloegr

■ A wyt ti wedi dysgu unrhyw beth yma a fydd yn dy helpu pan fyddi di'n cael dy ryddhau (e.e. addysg neu sgiliau)?




Ffynhonnell: Data arolwg Arolygiaeth Carchardai EF, 2025-26

- 1.61 Roedd anawsterau wrth reoli ymddygiad wrth wraidd y broblem. Roedd plant yn dal i gael eu dyrannu i ddosbarthiadau am resymau diogelwch yn hytrach nag oherwydd eu hanghenion addysgol.

Roedd cyswilt teuluol yn dal yn anodd i lawer o blant

Ffigur 20: Roedd plant yn Oakhill yn fwy tebygol o gael ymweliadau gan deulu a ffrindiau na phlant mewn sefydliadau eraill

Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel yng Nghymru a Lloegr



Ffynhonnell: Data arolwg Arolygiaeth Carchardai EF, 2025-26

- 1.62 Yn y Parc, gallai plant gysylltu â'u teulu a'u ffrindiau dros y ffôn yn eu cell neu dabled. Roedd y plant yn defnyddio rhain yn rheolaidd ac yn eu gwerthfawrogi.
- 1.63 Roedd cael ymweliadau neu alwadau fideo diogel yn fwy o her. Er bod plant sydd â theulu cyfagos wedi dweud wrthym y gallent gael ymweliadau wyneb yn wyneb yn rheolaidd, dim ond 41% o'r plant yn ein harolygon ddywedodd ei bod yn eithaf hawdd neu'n hawdd iawn i'w teulu a'u ffrindiau deithio i'r Sefydliad Troseddwy'r Ifanc neu'r Ganolfan Hyfforddi Ddiogel. Mewn cyfweiliadau, dywedodd plant yr oedd eu teulu'n byw ymhellach i ffwrdd wrthym nad oeddent yn gallu cael ymweliadau mor aml, ac ni chafodd rhai unrhyw ymweliadau o gwbl. Dim ond 70% o blant oedd yn cael ymweliadau, ac o'r rheini dim ond 38% oedd yn eu cael unwaith yr wythnos neu'n amlach.
- 1.64 Yn Werrington nid oedd lle i deuluoedd aros cyn ymweld, ac roedd y ganolfan ymwelwyr yn Wetherby ar gau yn rheolaidd.

'Roedd y ddarpariaeth ar gyfer ymwelwyr yn annigonol. Er enghraifft, nid oedd y ganolfan ymwelwyr bob amser yn agored ac nid oedd cyfleusterau yno, gan gynnwys bwyd a diodydd poeth; roedd hyn yn annerbyniol o ystyried bod y rhan fwyaf o gartrefi plant rhwng 50 a 100 milltir i ffwrdd.'


Adroddiad arolygu Wetherby

- 1.66 Roedd mynediad at ymweliadau'n cael ei rwystro ymhellach gan bryderon diogelwch. Mewn rhai safleoedd, dim ond gyda'u hadain neu grŵp penodol o blant y gallai plant gael mynediad i ymweliadau. Roedd hyn yn lleihau nifer y slotiau ymweld a oedd ar gael ac yn ei gwneud yn amhosibl i rai plant ar remand ddefnyddio eu hawl.
- 1.67 Roedd y plant yn ymwybodol o ymweliadau fideo ond dim ond 29% oedd yn eu defnyddio, gyda rhai plant yn dweud bod y broses drefnu yn rhwystredig. Roedd cysylltiad clir rhwng y cymorth a gynigir i blant a theuluoedd i gael mynediad at y galwadau hyn a nifer y plant a oedd yn eu defnyddio. Yn y Parc, roedd y system yn cael ei rheoli'n dda ac roedd nifer dda yn manteisio arni, ac yn Feltham roedd llai o ymwybyddiaeth ac nid oedd y cyfleusterau'n cael eu defnyddio.

Yn aml, nid yw anghenion adsefydlu'n cael sylw

Ffigur 21: Dywedodd llai na hanner y plant fod rhywun yn eu helpu i baratoi ar gyfer gadael y sefydliad

Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel yng Nghymru a Lloegr



Ffynhonnell: Data arolwg Arolygiaeth Carchardai EF, 2025-26

- 1.68 Mewn gormod o achosion, tanseiliwyd cynlluniau ailsefydlu effeithiol oherwydd bod llety'n cael ei gadarnhau'n rhy agos at y dyddiad rhyddhau. Dyma'r prif reswm mai dim ond lleiafrif o blant oedd ag

addysg neu waith wedi'i drefnu yn y gymuned cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r ddalfa. Roedd gan lai na hanner y plant yn Wetherby rywbeth i'w wneud pan gawsant eu rhyddhau, ac yn Feltham dim ond 14% o'r plant oedd ag addysg neu waith.

- 1.69 Yn gyffredinol, mae plant sy'n bwrw dedfrydau hirach yn symud i'r ystâd oedolion pan fyddant yn 18 oed. Gwelsom fod y cynllunio ar gyfer y newid hwn yn dda ar y cyfan mewn Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc, cyn belled bod lleoliadau wedi cael eu sicrhau mewn pryd, ond yn y pen draw roedd yn dibynnu ar ymgysylltiad gan y sefydliad a oedd yn derbyn. Roedd hyn fel arfer yn well yn y carchardai i oedolion a oedd yn derbyn mwy o blant.
- 1.70 Roedd NEWTs (gweithwyr achos ailsefydlu) yn paratoi plant yn dda ar gyfer symud i'r ystâd oedolion ac yn aml yn cynnal cyswllt ar ôl iddynt gael eu trosglwyddo.
- 1.71 Yn ystod y flwyddyn, treialodd y Gwasanaeth Ieuencid yn y Ddalfa ddull newydd o ryddhau ar drwydded dros dro (ROTL). Roedd arweinwyr yn Wetherby wedi ymateb yn dda ac wedi ehangu argaeledd y cynllun. Yn y flwyddyn cyn ein harolygiad, defnyddiwyd ROTL 407 o weithiau ar gyfer 26 o blant.

'Defnyddiwyd ROTL yn greadigol i gefnogi ailsefydlu ac ailintegreiddio yn y gymuned. Roedd tystiolaeth gref o drafodaethau aml-asiantaeth a rhyngadrannol i bennu addasrwydd a nodi'r lleoliadau mwyaf priodol. Roedd cofnodion a adolygwyd gennym yn dangos newidiadau cadarnhaol parhaus yn ymddygiad plant ar ôl iddynt ddechrau mynychu ROTL, gan ddangos ei werth fel adnodd ar gyfer cynnydd.'

Adroddiad arolygu Wetherby

- 1.72 I'r gwrthwyneb yn y Parc, a oedd hefyd yn rhan o'r cynllun peilot, dim ond pedair gwaith yn y flwyddyn flaenorol yr oedd ROTL wedi cael ei ddefnyddio.

Atodiad I Nodweddion demograffig a chefnidir

Demograffeg a nodweddion cefndir eraill plant a lenwodd holiadur - yn gyffredinol, rhwng mathau o, ac o fewn sefydliadau - o ddata hunan-gofnodedig.

				STlau		Cyfanswm STlau	STC	Cyfanswm STC	Cyfanswm yr holl blant
		Feltham A	Y Parc	Werrington	Wetherby		Oakhill		
Rhywedd	Gwrywaidd	100%	100%	100%	99%	100%	88%	88%	97%
	Benywaidd	0%	0%	0%	0%	0%	12%	12%	2%
	Anneuaidd	0%	0%	0%	0%	0%	0%	0%	0%
	Arall	0%	0%	0%	1%	0%	0%	0%	0%
Oedran	14 neu iau	0%	0%	1%	0%	0%	3%	3%	1%
	15	4%	3%	3%	7%	4%	9%	9%	5%
	16	15%	6%	18%	11%	13%	36%	36%	18%
	17	58%	79%	55%	55%	59%	43 %	43 %	56%
	18 neu hŷn	22%	12%	23%	27%	23%	9%	9%	20%

Ethnigrwydd	Gwyn	27%	61%	36%	44%	39%	28%	28%	37%
	Cymysg	18%	15%	26%	17%	20%	21%	21%	20%
	Asiaidd	37%	9%	23%	21%	25%	33%	33%	26%
	Du	13%	6%	14%	9%	11%	9%	9%	11%
	Arabaid	4%	0%	1%	5%	3%	4%	4%	3%
	Arall	1%	9%	0%	3%	2%	5%	5%	3%
Teithiwr	Ie	6%	16%	5%	5%	7%	5%	5%	7%
	Na	94%	84%	95%	95%	93%	95%	95%	93%
Crefydd	Dim crefydd	19%	45%	23%	25%	25%	19%	19%	24%
	Cristion	41%	29%	30%	41%	36%	33%	33%	36%
	Bwdhydd	0%	0%	0%	0%	0%	2%	2%	0%
	Hindŵ	0%	0%	0%	1%	0%	2%	2%	1%
	Iddew	0%	0%	0%	0%	0%	0%	0%	0%
	Mwslim	40%	26%	48%	30%	37%	43 %	43 %	38%
	Sikh	0%	0%	0%	0%	0%	2%	2%	0%
	Arall	0%	0%	0%	3%	1%	2%	2%	1%

Problemau iechyd	Oes	54%	47%	39%	56%	49%	42%	42%	48%
	Na	46%	53%	61%	44%	51%	58%	58%	52%
Anabledd	Oes	39%	55%	31%	44%	40%	27%	27%	38%
	Na	61%	45%	69%	56%	60%	73%	73%	63%
Wedi derbyn gofal yn yr awdurdod lleol	Do	71%	91%	61%	56%	66%	56%	56%	64%
	Na	29%	9%	39%	44%	34%	44%	44%	36%
Meddu ar blant	Ydw	4%	19%	4%	9%	8%	4%	4%	7%
	Na	96%	81%	96%	91%	92%	96%	96%	93%

Atodiad II Methodoleg

Cynnal yr arolwg

Adeg yr arolwg, ceisiodd ymchwilyr o Arolygiaeth Carchardai EF wahodd pob plentyn yng Nghanolfan Hyfforddi Ddiogel (STC) Oakhill a phob sefydliad troseddwr ifanc (STI) i lenwi holiadur. Mewn rhai achosion, er enghraifft pan oedd plentyn yn y llys neu mewn ysbyty allanol, nid oedd yn bosibl siarad â phob plentyn. Cynigiwyd cyfle i 96% o blant a oedd yn cael eu cadw yn y Sefydliadau Troseddwr Ifanc a'r Ganolfan Hyfforddi Ddiogel adeg ein harolwg lenwi holiadur. Gwnaethpwyd pob ymdrech i siarad â phob plentyn yn unigol i egluro pwrpas a chyfrinachedd yr arolwg, ei natur wirfoddol ac annibyniaeth y broses arolygu. Roeddem hefyd wedi cynnig cynnal yr holiadur drwy gyfweiliad ar gyfer plant a ddywedodd fod angen cymorth arnynt.

Gofynnwyd i'r plant beidio â rhoi eu henw ar eu holiadur, ond er mwyn ein galluogi i fynd ar drywydd unrhyw faterion amddiffyn a diogelu plant, cafodd pob holiadur ei rifo fel y gellid olrhain unrhyw sylwadau perthnasol yn ôl i'r ymatebydd. Rhoddwyd gwybod i'r plant am hyn. Cafodd holiaduron wedi'u llenwi eu rhoi mewn amlenni wedi'u selio a'u casglu gan ymchwilyr Arolygiaeth Carchardai EF.

Cyfradd ymateb

Ar gyfer arolygon 2025/26, fel y dangosir yn Nhabl 1, cafodd holiaduron eu llenwi (naill ai drwy eu llenwi eu hunain neu drwy gyfweiliad) a'u dychwelyd gan 86% o'r plant yn y sampl a oedd ar gael (sy'n cynrychioli 82% o'r plant a oedd yn byw yn y sefydliad adeg yr arolwg). Roedd y gyfradd ymateb yn amrywio o 79% yn Wetherby a Keppel i 86% yn Werrington.

Tabl 1: Maint y samplau a'r cyfraddau ymateb ar draws y Ganolfan Hyfforddi Ddiogel a'r Sefydliadau Troseddwr Ifanc yn ystod 2025/26

Mae'r gyfradd ymateb ar gyfer y Sefydliadau Troseddwr Ifanc a'r Ganolfan Hyfforddi Ddiogel wedi cael ei chyfrifo fel cyfran o gyfanswm nifer y plant y cynigiwyd holiadur iddynt.

STI	Dyddiad yr arolwg	Poblogaeth ar ddyddiad yr arolwg	Nifer yr holiaduron a ddosbarthwyd	Nifer yr holiaduron a ddychwelwyd	Cyfradd ymateb
Feltham A	20 Mai 2025	93	90	72	80%
Y Parc	9 Mawrth 2026	39	38	33	87%
Werrington	15 Ebrill 2025	81	79	76	96%
Wetherby a Keppel	27 Hydref 2025	97	96	76	79%

Cyfanswm STI		310	303	257	85%
---------------------	--	------------	------------	------------	------------

STC	Dyddiad yr arolwg	Poblogaeth ar ddyddiad yr arolwg	Nifer yr holiaduron a ddosbarthwyd	Nifer yr holiaduron a ddychwelwyd	Cyfradd ymateb
Oakhill	17 Mehefin 2025	72	64	58	91%
Cyfanswm STI a STC		382	367	315	86%

Dim ymateb

Mae data coll, lle nad yw ymatebwyr wedi ateb cwestiwn, wedi cael eu heithrio o'r dadansoddiad. Mae hyn yn golygu bod y canrannau a gyfrifwyd yn dod o gyfanswm lle gallai'r cyfraddau ymateb fod wedi bod yn wahanol i bob cwestiwn yn yr arolwg.

Mae'r ffigurau a ddyfynnir yn yr adroddiad hwn wedi cael eu talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. Mewn rhai achosion, oherwydd y ffordd rydym yn talgrynnu'r data, gall canlyniad o 0%, mewn gwirionedd, fod wedi cael ei adrodd a/neu ei brofi gan nifer fach iawn o blant. Er enghraifft, ar draws sampl cyfan o 315 o holiaduron wedi'u llenwi gan y Sefydliadau Troseddswyr Ifanc a'r Ganolfan Hyfforddi Ddiogel, byddai ymateb un plentyn ar fater penodol yn ymddangos fel 0% yn ein hadroddiad.

Dadansoddiadau a gynhaliwyd

Yn ogystal â chyflwyno'r ymatebion cyfanredol i'r arolwg ar gyfer plant yn y ddalfa (ar draws y Ganolfan Hyfforddi Diogel a phob Sefydliad Troseddswyr Ifanc), adroddir ar ddadansoddiadau ychwanegol:

- cymhariaeth rhwng ymatebion i'r arolwg yn 2025/26 â'r rheini yn 2024/25
- cymhariaeth rhwng yr ymatebion i'r arolwg a gafwyd gan blant yn y Ganolfan Hyfforddi Ddiogel a'r Sefydliadau Troseddswyr Ifanc
- ymatebion gan blant yn y Ganolfan Hyfforddi Ddiogel a phob Sefydliad Troseddswyr Ifanc yn ogystal â'r ymateb cyffredinol gan blant yn y math hwnnw o ddalfa
- cymariaethau ystadegol rhwng gwahanol is-grwpiau yn ymatebion 2025/26, lle roedd y niferoedd yn caniatáu. Lle mae gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol yn y tablau, amlygir hynny.

Cyfweliadau arolygu

Fel rhan o bob arolygiad llawn o'r Sefydliadau Troseddswyr Ifanc a'r Ganolfan Hyfforddi Ddiogel, mae ymchwilydd Arolygiaeth Carchardai EF yn cynnal cyfweliadau ansoddol gyda hyd at 10 o blant i gael rhagor o wybodaeth am bynciau sydd o ddiddordeb i'r tîm arolygu. Dewisir plant i'w cyfweld ar sail eu

nodweddion personol, eu profiadau yn y sefydliad, neu feini prawf eraill y penderfynir arnynt yn dibynnu ar y pynciau sy'n cael sylw yn y cyfweiliadau.

Pennir pynciau'r cyfweiliadau gan ganfyddiadau dadansoddiad yr arolwg ac arsylwadau eraill o'r ymweliad cyn-arolygiad. Defnyddir canfyddiadau'r cyfweiliadau ochr yn ochr â chanfyddiadau'r arolwg a gwybodaeth arall a gasglwyd yn ystod yr arolygiad i lywio barn gyffredinol.

Hawlfraint y Goron 2026

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn, heb gynnwys y logos, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0, ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 or write to the Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu e-bostiwrch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint berthnasol i'w defnyddio.

Dylid anfon unrhyw ymholiad mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom isod neu drwy e-bost: hmiprison.enquiries@hmiprison.gov.uk

Mae modd llwytho'r cyhoeddiad hwn i lawr oddi ar y we yn:
<http://www.justiceinspectores.gov.uk/hmiprison/>

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan:
Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi
3rd Floor
10 South Colonnade
Canary Wharf
London
E14 4PU
Lloegr

Mae pob llun dan hawlfraint Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi, oni nodir yn wahanol.